

# Llais y Llan Mehefin 2016

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 25 Gorfennaf 2016

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

[www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk)

**Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf**

Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 01267253643

Bowlio pob Nos Lun a Nos Iau 7.30 – 9.30 o 1 Medi check

Cadw'n Heini 50+ pob Dydd Iau 2.00 – 3.00 Neuadd Bronwydd

Mehefin 15 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Mehefin 15 Nos Fercher 8.00 CCB Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri Ymddiriedolwyr

Mehefin 21 Nos Fawrth 6.00 Cerdded i'r Pum Pyllau Llanpumsaint - cwrdd yn neuadd Goffa

Mehefin 21 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Mehefin 22 Dydd Mercher 1.00 Hyfforddiant CPR / Diffibriliwr Neuadd Goffa

Mehefin 25 Dydd Sadwrn 2.30 Ffet Bronwydd

Mehefin 25 Dydd Sadwrn Gantorion Sine Nomine Eglwys y Plwyf Tocynnau Marice Sherlock  
253195

Mehrefin 26 Dydd Sul Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Goffa

Mehefin 26 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook

Mehefin 27 Dydd Llun 1.45 Clwb 60+ Neuadd Bronwydd

Mehefin 28 Nos Fawrth 7.00 Mark Evans Gild Menywod Bronwydd Neuadd Bronwydd

Mehefin 29 Dydd Mercher 60+Taith Penderyn Distillery

Mehefin 29 Dydd Mercher 12.00 – 5.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Gorffennaf 2 Dydd Sadwrn 11.00 Cerdded Bosherton

Gorffennaf 2 Nos Sadwrn 'This River' Neuadd Goffa Tocynnau Lynsey 253085 Moishe 253668

Gorffennaf 3 Dydd Sul Skanda Vale Gém Griced Elusennol Llandysul

Gorffennaf 5 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Gorffennaf 7 Nos Iau 7.30 Cór Llanpumsaint a'r Cylch Swper ac Adloniant yn Neuadd Goffa

Gorffennaf 9 Dydd Sadwrn Bore Coffi Eglwys y Plwyf Neuadd Goffa - gweler y posteri am  
fanylion

Gorffennaf 11 Dydd Llun Taith a Chavenage Manor Gild Menywod Bronwydd

Gorffennaf 13 Dydd Mercher Clwb 60+ Taith

Gorffennaf 13 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643  
Gorffennaf 19 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd  
Gorffennaf 24 Dydd Sul Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Goffa  
Gorffennaf 31 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook  
Awst 6 Dydd Sadwrn 2.00 Cerdded Skanda Vale  
Awst 10 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643  
Awst 10 Dydd Mercher 12.00 – 5.00 Clinig Traed Neuadd Goffa  
Awst 16 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd  
Awst 17 Dydd Mercher Clwb 60+ Taith  
Awst 25 Nos Iau 8.00 CCB Clwb Bowlio Mat Byr Llanpumsaint a Nebo Neuadd Goffa  
Awst 28 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook  
Medi 1 Nos Iau Clwb Bowlio Mat Byr Llanpumsaint a Nebo Dechrau Tymor Neuadd Goffa  
Medi 3 Dydd Sadwrn Skanda Vale ‘Sponsored Sky Dive’  
Medi 6 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint CCB Neuadd Goffa  
Medi 11 Dydd Sul Taith Maes Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru  
Medi 21 Dydd Mercher 12.00 – 5.00 Clinig Traed Neuadd Goffa  
Medi 25 Dydd Sul Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Goffa  
Medi 25 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook  
Hydref 15 Nos Sadwrn ‘Pure Magic’ cyngerdd Neuadd Goffa – fwy o fanlion yn Awst Llais y Llan

### *Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri*

*I logi'r Neuadd Goffa, ffoniwch Arwel Nicholas ar 01267 281365*

#### **Pwyllgor Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanpumsaint.**

Ar Orffennaf 2 2016 fe fydd cyngerdd gan y grwp roc “This River” sydd yn dod o Abertawe. Maent yn ymddangos yn aml mewn clwbiau a thafarnau. Ym mis Hydref fe fuon nhw mewn cyngerdd yn “Café Lorenzo” yng Nghaerfyrddin ac yn chwarae cerddoriaeth at ddant pawb. Os am eu clywed cerwch i “You Tube” a chwilio am Idge Logan ( eu prif leisiwr) ac wrth hyn y medrwch glywed pa mor dalentog ydynt. Gellir cael tocynnau wrth Lynsey Jones 01267 253085, Moishe Merry 01267 253668 a Emma.

## **Gofal Traed.**

Hoffwn atgoffa fy nghleiantiaid i gyd am y newidiadau fydd yn digwydd yng Nglinig Mis Mehefin a hynny yn barhaol gwaetha'r modd. Fe fydd y tál yn codi o £1 i £11.

Dyma ddydiadau y 3 clinig nesaf:-

Mercher Mehefin 29 2016 o 11.00y.b. hyd 4.00 y.p.

Mercher Awst 10 2016 o 11.00y.b. hyd 4.00 y.p.

Mercher Medi 21 2016 o 11.00y.b. hyd 4.00 y.p.

Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwynytiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis)

## **Eglwys y Plwyf.**

Neges gan Canon Aled W. Williams

Diolch i chi bawb am y fraint o gael gwasanaethu yn eich mysg, yn ystod y misoedd olaf hyn. Bu'n brofiad diddorol a dymunol, ond rhaid i chi edrych tuag ymlaen bellach, at eich gweinidogaeth newydd, beth bynnag fydd natur y drefn honno. Fe ddywedaf, fel Ioan Fedyddiwr, a fu'n paratoi'r ffordd ar gyfer 'Un mwy' – "Rhaid iddo ef/hi gynyddu ac i minnau leihau".

Fe fydd y cyfarfodydd yn cario ymlaen fel cynt ond os am ragor o wybodaeth mae'r manylion i gyd ar yr hysbysfwrdd y tu allan i'r Eglwys.

Fe fydd cyngerdd yn cael ei gynnal yn yr Eglwys ar nos Sadwrn, Mehefin 25 2016 gan y "Sine Nomine Singers" i ddechrau am 7.00 yr hwyr. Fe fydd posteri o amgylch y pentref yn fuan ond os am ragor o wybodaeth cysylltwch a Marice Sherlock ar 01267 253195

**Blaen Rybudd** - Fe fydd Bore Coffi yn cael ei gynnal yn y Neuadd Goffa ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 9 2016 gyda'r elw yn mynd tuag at yr Eglwys. Fe fydd yno stondinau a raffl felly mae croeso i chi i ymuno a ni. Ceir rhagor o fanylion eto.

## **Gild Menywod Bronwydd.**

Fe fydd yr uchod yn cynnal Noson Agored ar nos Fawrth, Mehefin 28 2016 a'n gwestai fydd Mark Evans a fydd yn siarad ar ei yrfa fel Canwr Opera. Pris mynediad i'r rhai sydd ddim yn aelodau cyfredol fydd £3 ac fe fydd y noson yn dechrau am 7.00 y.h.

Fe fydd ein trip blynyddol eleni yn mynd ar ddydd Llun, Gorffennaf 11 2016 pan fyddwn yn ymweld a Chavenage Manor gerllaw Titbury lle maent wedi ffilmio llawer o raglenni teledu fel Poldark a Wolf Hall. Yn dilyn fe fydd pryd o fwyd yn yr "Old Barn" yn Magor.

Mae'r Gild yn cwrdd yn Neuadd Bronwydd ar yr ail nos Lun ymhob mis o 7.00 y.h. i 9.00 y.h.. Mae croeso i aelodau newydd.

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a Val Lock ar 01267 253524 neu Sandra Macdonald ar 01267 253265.

## **Newyddion o Skanda Vale**

Mae Hospis Skanda Vale yn brysur ar hyn o bryd yn gwau eliffantod ac yn cael eu hysbrydoli gan eu heliffant byw, sef Valli. Mae hyn er mwyn codi arian i gael uned newydd i gleifion preswyl. Os hoffech gael patrwm ffoniwch 01559371222 neu ar y wefan [www.skandavalehospice.org](http://www.skandavalehospice.org) Hefyd ar Orffenaaf 3ydd fe fydd Gém Griced Elusennol yn cael ei chynnal yn Llandysul. Fe fydd gwsteion arbennig yn cymeryd rhan a bydd yr enwau yn cael eu cadarnhau maes o law. Bydd yna adloniant a bwyd – cyfle da i chi i gefnogi achos teilwng. Os am ragor o wybodaeth ffoniwch 01559 371222.

Ar Fedi 3ydd fe fydd “Sky Dive” Noddedig yn cael ei chynnal yn Abertawe. Eto,os am ragor o wybodaeth ffoniwch 01559 371222 neu ar e-bost: [sister.ally@skanda.vale.org](mailto:sister.ally@skanda.vale.org)

## **Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru.**

Ar Fehefin 21 2016 am 6.00 y.h. fe fyddwn yn ymuno a Cherddwyr Llanpumsaint ar eu taith i weld y Pum Pwll sydd yn nant Cwm Cerwyn. Mae'r pyllau wedi eu henwi ar ôl y pum saint sef Gwyn, Gwynno, Gwynoro, Ceitho a Chelynin. Maent yn dweud i'r pum brawd adeiladu Eglwys y Plwyf yn y 5ed neu 6ed ganrif. Roedd y pyllau yma yn fangre i bererinion oedd yn dod i'r pentref yn ystod y Canol Oesoedd a hyd at y ddeunawfed ganrif.

Dyma fanylion am y cyfarfodydd am y 3 mis nesaf:-

Sul Gorffenaaf 26 2016 Steve Dawson “Curry and Hartman Grids”

Mis Awst Dim cyfarfodydd

Sul Medi 11 2016 Trip Manylion I ddod

Sul Medi 25 2016 Diwrnod Ymarfer.

Mae dewinio yn grefft ddefnyddiol a diddorol gall bron unrhyw un eu dysgu. Dywed ei bod yn deillio o'r Aifft neu hyd yn oed ynghynt mewn hanes. Mae nifer o gwmnïau yn defnyddio doniau rhai darogawyr profiadol i chwilio am ddŵr, mwynau, olew, ceblau trydan ayyb. Mae rhai yn gwirio am straen daearegol yn ei amgylchedd; cred bersonol yw hyn sydd heb gael ei brofi yn wyddonol hyd yn hyn.

Pam na ddewch chi ddydd Sul i brofi am eich hun? Dewch i ymuno â ni yn Neuadd Bronwydd am 1.45 y.p. Mae mynediad yn £4 y person gan gynnwys paned o de a bisgedi. Does dim offer yn angenrheidiol, dewch a'ch hunan.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Sandy: 253547

## Clwb Cant Llanpumsaint.

Yng nghyfarfod o Bwyllgor Llës ac Adoloniaent Llanpumsaint ar Ebrill 26ain fe dynnwyd y rhifau lwcus am fisoedd Mawrth, Ebrill a Mai. Dyma'r enillwyr:-

Mawrth	1af	8	£20	John Francis
	2ail	32	£10	Kenneth Buttifintcarr
	3ydd	77	£5	Mary Howell
Ebrill	3ydd	10	£5	Dave (W.D.Robinson)
	1af	83	£20	Brian Gillham
	2ail	106	£10	Llewellyn Charles
Mai	3ydd	13	£5	Clwb Bowls
	3ydd	63	£5	Nivina Davies
	1af	83	£20	Brian Gillham
	2ail	17	£10	Mo Jameson
	3ydd	84	£5	Rita Gillham
	3ydd	28	£5	Joe Latter

Nid yw yn rhy hwyr i ymuno a'r Clwb, os oes gennych ddiddoedeb cysylltwch a Derrick Lock ar 253524.

## Clwb 60+

Mae'r clwb yn cael amser prysur iawn ar hyn o bryd gyda'r aelodaeth wedi codi i 140 Croesawodd y Cadeirydd Mr Peter Giles bawb i gyfarfod mis Ebrill ac fe gyflwynodd y siaradwr gwadd sef Lt. Col. John Skipper a roddodd araith arbennig ar ei brofiadau yn y lluoedd arfog. Roedd 60 o aelodau yn bresennol a chafwyd prynhawn hwylus iawn. Hefyd ym mis Ebrill cafwyd trip ar Gamlas Abertawe a the yng Ngwesty'r Ddraig yn Abertawe i ddilyn. Ar ôl hyn aeth bawb i fwynhau y tywydd braf ar y Gwyr a hefyd hufen ia yn y fargen. Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai ddoe pan roddodd Mrs Janice Richards OBE MBE hanes ei gyrfa yn swyddfa y Prif Weinidog yn Llundain. Roedd yn brynhawn arbennig gyda Mrs Richards wedi gweithio gyda chwech Prif Weinidog yn ystod ei gyrfa o 29 blynedd. Cafwyd te a bisgedi i ddilyn. Fe aeth trip mis Mai i Erddi a Chastell Picton a phryd o fwyd ysgafn i ddilyn. Eto buodd y tywydd yn garedig iawn.

Mae Mr Glyn Evans ar hyn o bryd yn trefnu trip i Bendersyn a Chamlas Aberhonddu ar Fehefin 29 2016 gyda phryd o fwyd yn Nhafarn Nantgelynnen i orffen y dydd. Gwaetha'r modd nid oes rhagor o seddau rhydd ar y bws. Mae Mrs. Val Giles yn trefnu trip I Wlypdir Llanelli ar Orffenaf 13 2016 a mae seddau rhydd ar y bws ar hyn o bryd. Byddwn yn galw am bryd o fwyd yn y "Bridge Inn" yn Llangenench cyn mynd am adre. Hefyd mae trefniadau yn cael eu gwneud i fynd ar Awst 17 2016 i Ganolfan Treftadaeth y Rhondda ac os oes gennych ddiddordeb a fyddech cystal a chysylltu a Val (Ysgrifenyddes) ar 01267 2811974 am ragor o fanylion.

Bydd y cyfarfod nesaf ar ddydd Llun, Mehefin 27 2016 pan fydd Mr Johnny Thomas yn siarad ar Hen Geir.

Mae'r aelodau yn bwriadu mynd eleni eto i Dwrci a Thinsel ym mis Tachwedd a'r tro hyn i "Eastbourne"

## **Curiad Calon Llanpumsaint**

Ar ddydd Sadwrn, Mai 7ed dadorchuddiwyd yr Adfywiwr cyntaf yn swyddogol y tu allan I'r Neuadd gan y Cynghorydd Sir, Mr Irfon Jones. Mae'r Adfywiwr yma wedi ei gofrestru gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac y mae yn awr yn weithredol. Mae'r Adfywiwr ar bwys y Brif Fynedfa i'r Neuadd Goffa. A fydddech mor garedig a chyfarwyddo a'r lleoliad ond da chi peidiwch a'i agor o achos y mae yn gwneud swm ofnadwy.

Mae wedi bod yn ymdrech hynod nodedig mewn amser byr gan y trigolion lleol a hefyd y gymuned estynedig i brynu yr Adfywiwr yma sydd yn medru achub bywyd. Mae'r gefnogaeth i ddigwyddiadau a hefyd cyfraniadau preifat wedi bod yn galonogol a dweud y lleia.

Bwriedir yn awr i brynu rhagor a'i gosod yn ardaloedd Nebo a Ffynnonhenri ac yn olaf yr ail un yn y pentref a fydd yn cael ei osod ger Tafarn y Rheilffordd.

Cofiwch bob amer os bydd unrhyw un yn cael trawiad ar y gallon, deialwch 999 a wedyn yn syth cariwch allan y **"CPR"** a danfonwch rhywun i hól yr Adfywiwr. Mae'r Gwasanaethau Brys yn gwybod am leoliad yr Adfywiwr a byddant yn rhoi cyfarwyddiadau nes i'r ymatebydd Cyntaf gyrraedd. Mae aelodau o'r Gwasanaeth Tân wedi cael eu hyfforddi a efallai mae'r Injan Dán fydd y cyntaf i gyrraedd nid yr Ambiwlans.

Yn y dyfodol agos fe fyddwn yn trefnu Diwrnodau Hyfforddiant gan fobl Proffesiynol o'r elusen "Fy Nghariad". Fe fydd yr un cyntaf ar Fehefin 22ain am 1.00y.p. yn y Neuadd Goffa. Fe fydd y sesiwn yn para am rhyw 90 munud ac fe fydd te a choffi hefyd!

Mae gennym rai Citiau Ymarfer a fedrwch eu benthyg er mwyn dysgu y pethau sylfaenol am **"CPR"** yn eich cartref – a hefyd DVD a fydd yn rhoi pob cyfarwyddiadau i chi er mwyn ymarfer sut i roi **CPR**. Anogwch y teulu i gyd i gael eu hyfforddi – fe allai achub bywyd yn y dyfodol.

Llawer o ddiolch am bob cefnogaeth.

Mike Poston. Cadeirydd.

## **Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri**

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol o'r uchod ar nos Fercher Mehefin 15ed 2016 am 8.00y.h. Mae yna groeso i bawb ac os oes gennych ddiddordeb i ymuno a'r pwyllgor cysylltwch a Arwel Niocholas Cadeirydd ar 281365 neu'r Ysgrifennydd Derick lock ar 253524.

Fe fydd cyhoeddiad maes o law ynglŷn a thocynnau ar gyfer y cyngerdd "Pure Magic" a fydd yn cael ei gynnal ar nos Sadwrn, Hydref 15 2016. Pris tocynnau fydd £12.50 yr un.

**Gwasanaeth Swyddfa Bost** - gyferbyn â Thafarn y Rheilffordd ar ddydd Mawrth 2.00 -4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 y.h.

## **Dydd Sul y Fferm Agored**

Fe wnaith dros 60 obobl gwario ddiwyrnod mwynhad yn ymweld ag Esgair ar ddydd Sul yr phumed o Fehefin. Ar ei daith o amgylch yr ffarm fe welwyd ieir, moch bach, gwartheg ai lloi ac amrywiaeth o cheffylau. Gellir ymwelwyr ymchwilio I fewn i'r broses o gynhyrchdd ac thyfu barlys gallant gweld yr peiriannau I gyd a ddefnyddir yn ystod y broses gan gynwys combine harvester. Roedd yna chyfle I phobl cael llun ar un o dractors yr ffarm. Roedd yr holl dydd yr rhad ac am ddim.

Darganfyddwch Fwy ar [www.pastureperfect.com](http://www.pastureperfect.com)

## **Clwb Cerdded Llanpumsaint.**

Mae Cyngor sir Gár wedi cadarnhau bod y Llwybr Cyhoeddus yn Nantgwyn wedi cael ei ddargyfeirio ac y mae yn awr ar agor. Mae'r arwydd i'w gweld o Heol Llandysul.

Pan fyddwch yn cerdded ar dir amaethyddol a fyddech mor garedig a chadw at y canlynnol:-

### **Parchu, Diogelu a Mwynhau.**

Parchu pobl eraill.

- Ystyriwch y gymuned leol a phobl eraill.
- Gadael gatau ac eiddo unrhyw un arall fel yr ydych yn eu cael a dilyn y llwybrau yn drwyadl.

Diogelu'r Amgylchedd Naturiol

- Peidiwch gadael unrhyw sbwriel ar eich hól. Cofiwch fynd a fe adre gyda chi.
- Cadwch eich cŵn ar dennyn.

Mwynhau yr awyr agored.

- Cynlluniwch ymlaen llaw.
- Dilynwch pob cyngor ac arwyddion lleol.

Ar nos Fawrth Mehefin 21ain byddwn yn cerdded unwaith eto i'r Pum Pwll gan ddechrau yn y Neuadd Goffa am 6.00y.h. Diolch i'r tîrffeddiawr am ganiatâd i gerdded drwy Afon Cerwyn.

Cofiwch bydd yn ofynnol i chi wisgo dillad addas (h.y.wellingtons) a dod a ffon gan fod cerdded yn yr afon yn gallu bod yn lithrig iawn.

Ar ddydd Sadwrn, Gorffanaf 2ail byddwn yn mentro rhywfaint ymhellach i fwynhau yr olygfa yn Bosherton a cherdded wedyn i Gei Stackpole. Fe fyddwn yn dechrau o Faes Parcio Bosherton am 11.00y.b. ac yn cyrraedd Stackpole, gobeithio, am ginio tua 1.00y.p. Ceir manylion ar y wefan:-

<http://www.nationaltrust.org.uk/stackpole/trails/stackpole-wildlife-walk>.

Ar ddydd Sadwrn, Awts 6ed am 2.00y.p. fe fyddwn yn cerdded o'r pentref a'r tro hyn i Skanda Vale. Yn dechrau o Dafarn y Rheilffordd a cherdded tuag at Landysul, troi i'r dde (ar bwys Tegfan) a cherdded ymlaen o dan pont y rheilffordd a thrwy'r caeau i'r heol sydd yn arwain i Skanda Vale.

Mae yn daith tua 5 milltir. Wedi dychwelyd i'r pentref fe fydd bwyd ar gael yn Nhafarn y Rheilffordd.

Os hoffech ymuno a ni cysylltwch a Kay Bowen, ein hysgirfenyddes ar 07766 105122 neu ar e-bost:- [kaybowenis@googlemail.com](mailto:kaybowenis@googlemail.com)

Hefyd os hoffech ddod ar unrhyw un o'r teithiau cysylltwch a Kay – byddai medru rhannu trafndiaeth yn ffafriol yn enwedig i Sir Benfro.

### ***Rheilffordd Nosweithiau Arbennig***

*Bydd Jayne a Nick yn cynnal Noson Stêc i 2 bob dydd Mercher - 2 x10oz Celtic Pride stêc ffolen gyda sglodion cartref a garnais salad a photel o win tŷ; am £25 y cwpl. Ffoniwch y Rheilffordd ar 01267 253643 i archebu.*

## **Gwelliannau ar Ddiogelwch y Ffyrdd yn Llanpumsaint**

Mwy na thebyg yr ydych wedi sylwi ar y posteri o amgylch y pentref ynglyn a'r newidiadau sydd i'w gwneud i Gyfyngder Cyflymdra yn y pentref. Bwriedir cael 20 m.y.a. gerllaw yr Eglwys a'r Ysgol hyd at y Neuadd Goffa. Fe fydd cyfyngder o 40 m.y.a. y tu allan i'r pentref wrth ddod o gyfeiriad Caerfyrddin.

Unwaith y bydd y newidiadau hyn wedi eu cadarnhau fe fydd yr arwyddion yn cael eu gosod.

## Heddlu

Yn ddiweddar, rwyf wedi gweld cynnydd sylweddol o ran baw cŵn yn y pentref a'r cyffiniau, ac rwy'n siomedig bod cerddwyr cŵn yn teimlo ei bod hi'n iawn i adael y baw ar y ffordd. Mae rhai cerddwyr cŵn yn teimlo ei bod hi'n iawn i'w orchuddio â phorfa a chwyn - nid yw hyn yn dderbyniol. Os ydych chi'n cerdded eich cŵn ar y ffyrdd o gwmpas Llanpumsaint, neu'n cerdded cŵn pobl eraill, mae'n rhaid i chi lanhau eu baw. Os ydych chi'n cerdded cŵn ar gyfer pobl eraill, dylen nhw roi bagiau i chi lanhau'r baw ac yna cael gwared arno. Mae sawl bin o gwmpas y pentref ar gyfer y diben hwn. Os yw hyn yn parhau, byddwn ni'n edrych ar drefnu digwyddiad gydag Iechyd yr Amgylchedd, a fydd yn edrych ar erlyn unrhyw droseddwyr.

Rydyn ni dal yn gobeithio lansio cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned yn yr ardal, ond mae angen o leiaf 4 person arall arnom sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y cynllun. Mae angen i ni gynnal gwiriadau ar y partïon sydd â diddordeb ac mae gennym ffurflen gais i'w llenwi. Yna, medrwn gyflwyno'r cynllun yn y pentref, a gobeithio gwneud gwahaniaeth. Am ragor o fanylion, cysylltwch â mi ar 101 est 25344 neu drwy e-bost ar [martin.dickenson@dyfed-powys.pnn.police.uk](mailto:martin.dickenson@dyfed-powys.pnn.police.uk).

## Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Phillip Jones yw'r clerc a gellir cysylltu ag e' ar 01267 253512 neu [clerc@llanpumsaint.org.uk](mailto:clerc@llanpumsaint.org.uk) <<mailto:clerc@llanpumsaint.org.uk>>. Gall y trigolion lleol fynychu unrhyw gyfarfod o'r Cyngor. Trafodir yn bennaf drwy'r Gymraeg ond mae cyfleusterau cyfieithu llawn ar gael

## Ceisiadau Cynlluniau Diweddaraf

W/33739 Dolwerdd - Single storey rear extension

W/33800 Skanda Vale – Replacement pilgrim accommodation etc

## Cór Llanpumsaint a'r Cylch

Cynhaliwyd perfformiad llwyddiannus iawn o'r "Crucifixion" gan John Stainer yn Eglwys Llandysul ar nos Iau Ebrill 14eg 2016. Cafwyd ymateb teilwng iawn gyda'r Eglwys yn llawn. Yn cynorthwyo'r Cór oedd Sion Owen Tenor a'r Parch Aled Williams, Bass. Yr arweinydd oedd Gwyn Nicholas a'r organyddes oedd Lynne James. O ganlyniad i hyn fe fydd sic o £1000 yn cael ei chyflwyno I Ambiwlans Awyr Cymru yn y dyfodol agos.

Ar nos Iau, Gorffennaf 7ed 2016 mae'r Cór yn bwriadu cynnal Swper ac Adloniant yn Neuadd Goffa Llanpumsaint am 7.30y.h. Pris tocynnau fydd £15.00 yr un. Ceir rhagor o fanylion maes o law. Cadwch lygad am y poster.

**Codi Arian Hawdd** Os ydych yn siopa ar y We yna gallwch helpi i godi arian i'r ysgol drwy gofrestri ar [www.easyfundraising.org.uk/causes/LlanpumsaintPTA](http://www.easyfundraising.org.uk/causes/LlanpumsaintPTA) neu gysylltu ag Emma Brown

**Llyfrgell Deithiol** - Bob 4 wythnos, ffl gael ffôn 01267 224830

## **Pwyllgor Llës ac Adloniant, Llanpumsaint.**

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol o'r uchod ar Ebrill 26 2016 ac fe ail etholwyd y canlynol:-

Cadeirydd	Pamela Jones
Is- Gadeirydd	Brian Smethurst
Ysgrifennydd	Derick Lock
Trysorydd	Sarah Moore
Archwilydd	Mary Howell
Trysorydd Clwb Cant	Derick Lock
Archwilydd	Alan Dentry

Aelodau eraill o'r pwyllgor yw:- Elfed Davies, Gavin Harding, Mathew Jones, Meinir Jones, Dorrien Thomas a Cath Vimpany.

Os oes unrhyw un a diddordeb i ymuno a'r pwyllgor a fydddech mor garedig a chysylltu a Pamela Jones, Cadeirydd ar 253257 neu'r ysgrifennydd Derick Lock ar 253524

Mae'r offer yn y Cae Chwarae wedi neu yn cael eu trwsio a hefyd mae Bin Sbwriel newydd wedi ei osod yn y Lle Chwarae.

Ar ddydd Sadwrn, Mehefin 16 2016 fe fyddwn yn cynnal Diwrnod Glanhau yn dechrau am 9.00y.b. Croeso cynnes i bawb ond cofiwch ddod a'ch offer gyda chi (menig, bwced, rhaw a.y.b.) Mae eisiau peintio'r gâtiau a'r ffensydd a hefyd cynnal a chadw y llwybrau o amgylch y cae. Mae Dŵr Cymru wedi addo tarmacio'r llwybr ar bwys y Cwrt Tennis cyn iddynt orffen defnyddio'r cae. Fel y gwyddoch mae aelodau'r pwyllgor wedi bod yn eu tro bob wythnos yn casglu sbwriel yn y cae a gofynnir yn garedig i bawb ddefnyddio'r biniau sydd ar gael. Mae dau ar bwys y fynedfa gyferbyn a'r Neuadd, un yn y Lle Chwarae a un ar bwys y Cwrt Tennis.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fercher Gorffennaf 6ed yn y Neuadd Goffa am 8.00y.h.

## **Teithiau Cerdded Hanesyddol Tref Caerfyrddin**

Mae Cyngor Tref Caerfyrddin a Chyngor Sir Gaerfyrddin yn trefnu teithiau cerdded yn ystod misoedd y Gwanwyn, Haf a'r Hydref yn ymdrin â Hanes tref Caerfyrddin nol i adeg y Rhufeiniad. Mae'r teithiau yn cymryd lle ar ddydd Mercher am 11.30 a.m. ac yn parhau am tuag awr. Ynghyd a hyn, mae'r Cynghorau yn trefnu teithiau arbennig i grwpiau a chymdeithasau unrhyw amser, naill a'i theithiau Hanesyddol arferol y dref neu ar ardaloedd arbennig e.e. Y Tuduriaid, Amgueddfa'r Cwryglau, Rhys ap Thomas, Afon Tywi ayyb

Mae'r teithiau i gyd yn rhad ac am ddim a gellir ei gwneud drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, neu i ymwelwyr o wledydd tramor mewn amryw o ieithoedd arall. (Mae'r teithiau ar ddydd Mercher yn tueddu i fod ar gyfer ymwelwyr ac yna drwy gyfrwng y Saesneg)

Manylion cyswllt ar gyfer trefnu taith yw Canolfan Gwybodaeth Twristiaeth Caerfyrddin, rhif ffôn 01267 231557

## Capel Nebo

Mehefin 19 Parch Roger Thomas- 2:00 y.p  
26ain Parch Andrew Lenny- 2:00y.p

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

## Capel y Bedyddwyr Caersalem, Llanpumsaint

“Cyhoeddwn Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd”

Rhifau Cyswllt Mrs Eleri Morris 01267 253895

## Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion am y gwasanaethau am fisoedd Mehefin, Gorffenaaf ac Awst 2016.

Mehefin 26 Cwrdd Undebol am 10.30y.b. Parch Gareth Morris

Gorffenaaf 10 Cymundeb am 2.00y.p. Mr Arwyn Pearce

Gorffenaaf 24 Gwasanaeth am 4.00y.p. Parch Goronwy Wynne

Mis Awst Dim Cyfarfodydd

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas, Ysgrifennydd ar 01267 253686

## Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo.

Cafwyd diwedd glo cyffrous i'r tymor gyda'r Clwb uchod yn gorffen o un pwynt yn y trydydd safle yn adran gyntaf o Gynghrair Bowlio Mat Byr Sir Gaerfyrddin. Y ddau dîm disgwyliadwy a ddaeth yn gyntaf ac ail.

### League Standings – Division 1

Team	Played	Won	Drawn	Lost	Shot diff.	Points
Llanboidy A	22	18	4	0	502	144
Salem	22	17	3	2	334	134
Llanpumsaint	22	10	7	5	139	100
Meiniciau	22	10	6	6	69	99
Pontargothi	22	11	6	5	60	99
Llandyfaelog A	22	9	3	10	-3	86
Llandyfaelog B	22	6	9	7	-101	85
Alma	22	7	4	11	-33	80
Bronwydd	22	6	5	11	-107	70
Llanboidy B	22	5	3	14	-83	65
Cwrt Henri	22	3	3	16	-375	50
Whitland	22	0	7	15	-402	44

Yn flynyddol mae Bronwydd a ninnau yn chwarae am Droffi y diweddar gaptan sef Roy Bowen. Mae'r gêmâu bob amser yn gyfeillgar iawn ac fe enillon ni y gem gyntaf oddi cartref o 7 i 1 ond Bronwydd enillodd yr ail gêm yn Llanpumsaint o 6 i 2. Felly ar gyfartaledd yr ydym ni yn cadw'r troffi am flwyddyn arall.

Fel arfer, cyflwynyd y troffi i'n capten, Aled Edwards gan Janet Bowen, gweddw y diweddar Roy. Fe fydd ein Cyfarfod Blynnyddol ar nos Iau Awst 25 2016 am 8.00y.h. yn y Neuadd Goffa ac fe fydd ein hymarferion yn ail-gychwyn yn y Neuadd eto ar nos Iau Medi 1af o 7.30y.h. tan 9.30y.h. Croeso cynnes i bawb.

## Llanpumsaint yn 1916

Gaeaf gwlyb iawn fu hi yn 1916 hefyd! Ar 19eg o Ionawr gan mlynedd ‘nol, bu cymaint o law fel na chyrhaeddodd ond dyrned o blant gat yr ysgol. Caewyd y Gofrestr ac aeth pawb adre’n stêcs. I wneud pethe’n wath torrodd y dwymyn goch allan yng Ngwili Teras. Hyd yn oed erbyn canol Ebrill nid oedd pall ar y glaw, gyda’r plant yn eu dillad sopen yn cael eu hanfon eto’n syth adre. Yn y dyddiau hynny cerdded i’r ysgol oedd tynged pob plentyn, lan at dair milltir yn aml, drwy bob tywydd. Un fantais o gyrraedd yr ysgol yn wlyb diferi oedd ennill diwrnod ychwanegol o wyliau annisgwyl.

Yn naturiol ddigon hanesion am y Rhyfel Mawr oedd yn hawlio’r sylw mwya’. Bu Dan Lewis o Fwlchyrhyd yn gweithio i’r adeiladwr George Daniel ym Mronwydd am bum mlynedd, ac yn lletya yno’n Gwyn Villa gyda’r teulu. Gorfodwyd Dan druan i ymuno a’r fyddin ac anfonwyd ef i Landudno i ymarfer, lle’r aeth yn sâl o lid yr amenydd. Er ei symud i Ysbyty Bangor bu farw yno yn Ebrill ychydig cyn i George Daniel gyrraedd. Claddwyd ef ym mynwent Capel Caersalem Llanpumsaint yn agos iawn at fedd Ben Davies Cwmcreigiaufach, y cyntaf o’r chwech lleol i gollu eu bywydau yn y gyflafan. Yn fuan wedyn daeth y neges fod Emrys Morris, y gwirfoddolwr brwdfrydig, mab y cyn Ysgolfeistr, yntau wedi ei ladd ger Ypres, ym mis Gorffennaf, yn fuan wedi cyrraedd Ffrainc. Mae yna eiriau coffaol amdano ar fedd y teulu ym mynwent Capel Bethel. Yna rhagor o newyddion drwg o Gilfachfach lle bu popeth yn ddigon hamddenol amser cinio. Dychwelodd Hannah Griffiths i’r tŷ am chwarter wedi tri ar ôl bod yn helpi gyda’r llafur, i ddarganfod ei modryb wedi crogi ei hunan yn ei hystafell wely.

I lawr ym Mronwydd, wedi colli ei drwydded gwerthu cwrw yn y Carpenters Arms (safai unwaith ger mynedfa i Ystâd Troedyrynys), aeth y tenant druan ati i werthi wyau Ancona am bedwar swllt. Methiant fu’r fenter newydd, ac yn fuan wedyn mae’r perchennog yn hysbysebu am denant newydd. Aeth nifer fawr o fechgyn ifainc i’r Tribiwnlys Apêl i geisio osgoi’r rhyfel. Er bod gan y saer olwynion George Daniel wraig a dau blentyn bach, gorfodwyd ef i fynd; ac felly hefyd un o ddau fab fferm Penrhiw yn Nebo. Ond daeth gwell canlyniad i’r melinydd yn Felinfach Bronwydd, oherwydd bod 80 i 90 o ffermwyr yn dibynnu arno i falu eu gwenith. Felly *Exempt* fu dyfarniad y Llys. Heb felinydd heb flawd fydde hi!

Ond yn y dyddiau tywyll hynny, ‘doedd dim yn well i godi calon na gweld priodas swanc. Felly trodd tyrfa fawr allan i wyllo seremoni Elizabeth Thomas Bwlchgwyn, Nebo, a David Thomas Pistillgwion, Llannewydd, yn Eglwys y Plwyf Llanpumsaint, ddechrau Mis Medi. Yna wythnos yn ddiweddarach priododd Pregethwr Ffynnonhenri, Y Parchedig Gwilym Morris ag Aliss Elisabeth Griffiths Ffynnonbumsaint. Ble? Yng nghapel Ffynnonhenri wrth gwrs! Dal i gylchdroi gwnâi arferion tymhorol y wlad hefyd. Cyfnod y Sels oedd yr Hydref, felly penderfynodd John Davies ymddeol gan drefnu i werthi holl stoc ac ogor fferm Pantglas. Wythnos neu ddwy wedyn gwelwyd Rhydygaer ym mhentref Llanpumsaint yn gwerthu lan. Gyda’r nosweithiau’n tywyllu dechreuodd yr eisteddfodau lleol unwaith eto, gyda gwell newyddion o Gilfachfach y tro hwn. Yn Eisteddfod fawr Pencader daeth Gwilym Bowi, y tenant newydd, yn gyntaf yn y brif gystadleuaeth canu penillion.

Cyn terfyn rhaid dychwelid i’r Ysgol a hynt y tywydd. Yn dilyn y gaeaf a’r gwanwyn anarferol o wlyb yn 1916,, mae Mr Johns yn nodi yn ei Gofrestr ar yr 8fed o Ragfyr, i wyth modfedd a hanner o eira ddisgyn dros nos, gyda llawer mwy o drwch ar y bryniau. Dim ond deg plentyn allan o 107 cofrestredig lwyddodd i gyrraedd iard yr Ysgol am rialtwch peli eira. Felly cofiwch y rhybudd, rhag ofn i hanes ail-adrodd ei hunan!

# Village Voice

# June 2016

Copy Date for next Edition 25<sup>th</sup> July

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange  
[www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) email [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk). Please send items to  
[info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk) or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

## What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Monday and Thursday from 1 September 7.30 – 9.30 Bowls at Memorial Hall

Every Thursday 2.00 - 3.00 Fitness for 50+ Ladies Bronwydd Hall

June 15 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – 253643 to book

June 15 Wednesday 8.00 AGM Memorial Hall Trustees

June 18 Saturday 9.00 Clear-up day Playing Fields

June 21 Tuesday 6.00 Walk to the Five Pools, Llanpumsaint

June 21 Wednesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

June 22 Wednesday 1.00pm CPR and Defibrillator Training Memorial Hall

June 25 Saturday 2.30 Bronwydd Annual Fete.

June 25 Saturday 7.00 Sine Nomine Concert in Church – Tickets Marice Sherlock 253195

June 26 Sunday 1.45 Practice Session West Wales Dowsers Bronwydd Hall

June 26 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

June 27 Monday 1.30 60+ Club Bronwydd Hall

June 28 Tuesday 7.00 Mark Evans at Bronwydd Ladies Guild Bronwydd Hall

June 29 Wednesday 60+ Trip to Penderyn Distillery and Brecon Canal

June 29 Wednesday 12 – 5pm Foot Clinic Memorial Hall

July 2 Saturday 11.00 Walk at Bosherton to Stackpole

July 2 Saturday 'This River' band Memorial Hall, tickets Lynsey Jones 253085, Moishe Merry 253668.

July 3 Sunday Skanda Vale Charity Cricket Match Llandysul

July 5 Tuesday Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

July 6 Wednesday 8.00 Welfare Trustees Meeting Memorial Hall

July 7 Thursday 7.30 Supper & Entertainment Evening Llanpumsaint & District Choir Memorial Hall

July 9 Saturday Coffee Morning, stalls and raffle for Church Funds – see posters for details

July 11 Monday Ladies Guild Trip to Chavenage Manor

July 13 Wednesday 60+ Trip to Llanelli Wetlands

July 13 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – 253643 to book

July 19 Wednesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

July 24 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

July 31 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd  
August 6 Saturday 2.00 Walk up to Skanda Vale  
August 10 Wednesday 12 – 5pm Foot Clinic Memorial Hall  
August 10 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – 253643 to book  
August 16 Wednesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn  
August 17 Wednesday 60+ Trip to Rhondda Heritage Centre  
August 25 Thursday 8.00 AGM Bowls Club Memorial Hall  
August 28 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd  
September 1 Thursday Bowls Season Starts Memorial Hall  
September 3 Saturday Skanda vale Sponsored Sky Dive  
September 6 Tuesday Llanpumsaint Community Council Memorial Hall  
September 11 Sunday Field Trip West Wales Dowers  
September 21 Wednesday 12 – 5pm Foot Clinic Memorial Hall  
September 25 1.45 Practice Session West Wales Dowers Bronwydd Hall  
September 25 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd  
October 15 Saturday 'Pure Magic' Concert Memorial Hall – more details in next Village Voice

### ***Llanpumsaint and Ffynnonhenry Memorial Hall***

*To book phone Arwel Nicholas on 281365*

#### **Ysgol Llanpumsaint PTA**

2ND JULY - Band concert – 'This River' is an indies/rock band based in Swansea. They travel all over and play in local clubs and pubs. This River played in Cafe Lorenzo, Carmarthen back in October and played varied but knowledgeable music, covering many decades! For a sneak preview before they come to Llanpumsaint in July, look for Idge Logan (he's the main singer) on You Tube and you'll be able to see their talent for yourselves!! Tickets from Lynsey Jones 01267 253085, Moishe Merry 01267 253668.

#### **Llanpumsaint and District Choir**

A very successful performance of the Crucifixion by John Stainer was held at Llandysul Church on Thursday April 16 2016. It was well supported with no empty seats in the Church. The guest artists were Sion Owen, Tenor and Rev Aled Williams, Bass. The conductor was Gwyn Nicholas and the organist was Lynne James. As a result a cheque of £1000 will be presented to the Wales Air Ambulance in the very near future.

On Thursday, July 7th 2016 the choir intend to hold a Supper and Entertainment Evening in Llanpumsaint Memorial Hall at 7.30p.m. Tickets will be £15.00 each. Further details to follow on posters around the village.

## Open Farm Sunday Esgair

Over sixty people spent a very enjoyable day visiting Esgair on Sunday 5<sup>th</sup> June for Open Farm Sunday. They saw chickens, piglets, cows and their calves and horses. Visitors explored the process of growing barley and saw the machinery involved including a vintage combine harvester. There was a photo opportunity to sit on a tractor. The whole day was provided free of charge. Find out more at [www.pastureperfect.co.uk](http://www.pastureperfect.co.uk)

## Llanpumsaint Church News

A message from Canon Aled W. Williams

